

Nodiadau Cefndirol

Pwrpas a chwmpas y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am nifer y tystysgrifau a gafodd eu cyhoeddi ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Mae rhestr lawn o gymwysterau rheoleiddiedig i'w gweld ar [gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru \(QiW\)](#).

Nid yw'r data yma'n cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Uwch Estynedig, Prif Ddysgu, Prosiect, Tystysgrifau Her Sgiliau na Bagloriaeth Cymru. Mae nifer y tystysgrifau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer rhai o'r cymwysterau hyn i'w gweld ar [wefan y Cydgyngor Cymwysterau](#).

Dim ond tystysgrifau a gafodd eu dyfarnu i ddysgwyr a gafodd eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfannau yng Nghymru y mae'r data'n eu cynnwys, waeth beth fo'r math o ganolfan.

Mae'r datganiad yma'n cyflwyno data yn ôl chwarter calendr. Mae Ch1 yn cynrychioli 1 Ionawr i 31 Mawrth; mae Ch2 yn cynrychioli 1 Ebrill i 30 Mehefin; mae Ch3 yn cynrychioli 1 Gorffennaf i 30 Medi; ac mae Ch4 yn cynrychioli 1 Hydref i 31 Rhagfyr.

Mae'r datganiad yma'n dangos nifer y dyfarniadau wedi'u dadansoddi yn ôl lefel y cymhwyster, maes pwnc sector a chorff dyfarnu.

Caiff cymariaethau yn y datganiad hwn eu gwneud yn bennaf â data o'r un chwarter o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd bod newidiadau tymhorol yn nifer y tystysgrifau sydd wedi'u dyfarnu dros y flwyddyn. Er enghraifft, dim ond yn yr haf mae rhai cymwysterau'n cael eu dyfarnu, ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a Safon Uwch.

Nid yw'r ystadegau hyn yn cynrychioli dysgwyr unigol, oherwydd gallai dysgwr fod wedi cyflawni sawl tystysgrif yn ystod y cyfnod yma.

Newidiadau i'r ystadegau hyn

O chwarter 1 2021 ymlaen, nid yw cymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau bellach wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Mae tystysgrifau ar gyfer cymwysterau cyfredol ac etifeddol Bagloriaeth Cymru wedi'u tynnu o'r data ar gyfer pob cyfnod amser. Nid yw cymwysterau a allai gyfrannu at Fagloriaeth Cymru etifeddol (e.e., Sgiliau Allweddol) wedi'u tynnu o'r data gan na allwn nodi a gyfrannodd tystysgrif unigol at y Fagloriaeth ai peidio.

Fe wnaethon ni'r newid yma yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr yr ystadegau hyn, o fewn Cymwysterau Cymru ac o sefydliadau eraill. Gan fod y cymwysterau hyn yn cael eu hastudio gan nifer fawr o ddysgwyr oed ysgol, roedd y cymwysterau hyn yn dominyddu'r ystadegau, ac yn ei gwneud yn anodd deall beth oedd yn digwydd yn y sector galwedigaethol yn ei gyfanrwydd. Mae rheoleiddio a monitro'r cymwysterau hyn yn agosach at gymwysterau TGAU a Safon Uwch nag at gymwysterau galwedigaethol eraill, felly rydyn ni wedi symud y broses o adrodd ar ystadegau ar gyfer y cymwysterau hyn i'n cyfres o ystadegau cymwysterau cyffredinol.

Er mwyn helpu defnyddwyr i bontio i'r dull newydd hwn, mae'r cyfansymiau chwarterol a blynyddol a gyfrifwyd ar yr hen sail (h.y. yn cynnwys Bagloriaeth Cymru a THS) i'w gweld yn nhabl 1b y tablau data a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Mae'r holl dablau a siartiau eraill yn cael eu cyfrifo ar y sail newydd yn unig. Os yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar eich defnydd o'r ystadegau hyn, neu i roi unrhyw adborth arall ar y newidiadau hyn, cysylltwch â ni yn ystadegau@cymwysteraucymru.org.

Ffynhonnell y Data

Daw gwybodaeth am gymwysterau rheoleiddiedig a'u nodweddion (e.e., lefel, corff dyfarnu, MPS) o [gronfa ddata QiW](#). Pan nad yw cymhwyster hanesyddol wedi'i restru ar QiW, mae nodweddion yn cael eu codi o gofrestr Ofqual. Cymerir detholiad newydd o bob cronfa ddata ar adeg ei gynhyrchu, a chaiff yr holl ddata ar gyfer pob cymhwyster ei adrodd yn erbyn y data nodweddion diweddaraf sydd ar gael.

Mae data am nifer y tystysgrifau sydd wedi'u dyfarnu yn cael eu hanfon at Cymwysterau Cymru gan gyrff dyfarnu. Casglwyd data cyn chwarter 1 2019 oddi wrth gyrff dyfarnu gan Ofqual a'i ddarparu i ni er mwyn ein galluogi i gynhyrchu'r ystadegau hyn.

Cyn chwarter 4 2017, adroddwyd am ystadegau ar gyfer Cymru gan Ofqual. Mae Ofqual [yn parhau i gasglu data tystysgrifau ar gyfer holl ranbarthau'r DU](#) at ddibenion mewnol, ond nid yw'n cyhoeddi data ar gyfer Cymru bellach.

Pan ddechreuodd Cymwysterau Cymru gasglu'r data hwn gan gyrff dyfarnu, fe wnaethon ni gynnal dau gasgliad ochr yn ochr ag Ofqual. Fe wnaethon ni ddadansoddi unrhyw wahaniaethau rhwng y data a gasglwyd gennym, a'r data a gasglwyd gan Ofqual, a defnyddio hyn i ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i sicrhau a gwella ansawdd y data. O ganlyniad i'r broses hon, efallai y bydd rhai gwahaniaethau yn y ffordd y mae cyrrff dyfarnu yn adrodd data i ni, o'i gymharu â sut y gwnaethon nhw adrodd data i Ofqual o'r blaen.

Tan fis Hydref 2020, nid oedd cofrestr QiW yn cynnwys cymwysterau rheoleiddiedig nad oedd yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus (a elwir yn gymwysterau "rheoleiddiedig eraill"). Felly, mae'n bosibl bod nifer fach o gymwysterau rheoleiddiedig eraill Cymru'n unig ar goll o ddata cyn 2019, gan nad oeddent ar gofrestr Ofqual na QiW. Gall y data hanesyddol hefyd gynnwys rhai cymwysterau a ildwyd o gwmpas ein cydnabyddiaeth ond a oedd yn dal i gael eu rhestru ar gofrestr Ofqual ar adeg casglu. Mae ein templedi casglu data yn cynnwys cymwysterau sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus a chymwysterau rheoleiddiedig eraill, ac felly'n rhoi sylw cyflawn i'r tirlun cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill rheoleiddiedig yng Nghymru.

Dylanwadau allanol

COVID-19

Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg [y byddai pob ysgol yng Nghymru yn cau erbyn 20 Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19](#). Ar 23 Mawrth 2020, [cyhoeddodd y Prif Weinidog gyfyngiadau pellach i arafu lledaeniad y coronafeirws yng Nghymru](#). Cafodd y mesurau cychwynnol hyn eu llacio cyn dechrau chwarter 3 2020, ond roedd nifer o gyfyngiadau ar waith drwy gydol 2020 ac i mewn i 2021. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid oedd llawer o golegau, canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant yn gallu gweithredu am sawl mis. Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i amharu ar ddysgwyr a chyrff dyfarnu. Bydd hyn yn debygol o gael effaith ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill o chwarter 2 2020 ymlaen.

Oherwydd yr angen i gau ysgolion a cholegau a'r tarfu cyffredinol a achoswyd gan bandemig COVID-19, cafodd llawer o'r cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu mewn ffordd a oedd yn wahanol i'r broses arferol. Ar gyfer rhai cymwysterau, roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn arbennig o wahanol i ganlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau yn y cyhoeddiad hwn yn cynrychioli nifer y tystysgrifau a gafodd eu dyfarnu ac nid ydyn nhw'n cynnwys dysgwyr nad ydyn nhw wedi pasio'r cymhwyster. Mewn rhai achosion, gall newidiadau yn y cyfansymiau ar gyfer cymwysterau unigol fod o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd basio, yn hytrach na newidiadau o ran cofrestrïadau.

Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster sy'n cael ei ddyfarnu i lawer o ddysgwyr yng Nghymru. Mewn blynyddoedd blaenorol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol (ynghyd â chymwysterau eraill) gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol cyfredol yn cyfrif tuag at ddyfarnu

Bagloriaeth Cymru ar hyn o bryd. Efallai bod y newid hwn wedi effeithio ar nifer y tystysgrifau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol sy'n cael eu hadrodd yn y data hwn.

Mesurau Perfformiad

Gall newidiadau i fesurau perfformiad hefyd fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i ddarparu uchafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion (Cyfnod Allweddol 4) Llywodraeth Cymru. Yn 2018, roedd newid pellach yn golygu mai dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth allai gyfrif tuag at gyfranwyddoniaeth y mesur perfformiad. Cyn hynny, roedd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol wedi cael cyfrif. Mae rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Nodweddion cymwysterau

Rhoddir lefel, maes pwnc sector (MPS) a math i bob cymhwyster. Mae lefelau'n cael eu disgrifio yn [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru](#). Caiff y MPS ei ddewis gan y corff dyfarnu i nodi pa ddiwydiant neu bwnc academaidd y mae'r cymhwyster fwyaf perthnasol iddo. Mae'r datganiad yma'n cynnwys cyfanswm chwarterol a blynyddol ar gyfer pob cymhwyster yn ôl lefel a MPS. Oherwydd materion gydag ansawdd a diffiniadau data, nid yw data yn ôl math o gymhwyster wedi'i gynnwys yn y datganiad yma.

Cyfyngiadau'r data

Er bod Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddarparu data cywir i ni, ni allwn warantu bod y wybodaeth a roddir i ni yn gywir. Rydyn ni'n cymharu'r data dros amser i wirio am unrhyw faterion neu anghysonderau systemig ac yn ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i ddilysu'r data. Ein nod yw casglu data sy'n ymwneud â dysgwyr a gafodd eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, ond mae'n bosibl y bydd dysgwyr nad ydyn nhw'n ddysgwyr o Gymru yn cael eu cynnwys yn y data, neu y gallai rhai dysgwyr o Gymru gael eu heithrio. Er enghraifft, dysgwyr o bell sy'n astudio o adref nad ydyn nhw'n mynychu canolfan o gwbl. Os yw hyn yn wir, rydyn ni'n disgwyl i gyrff dyfarnu ddefnyddio cyfeiriad y dysgwr, ond nid yw'r wybodaeth hon ar gael bob amser.

Pan fydd corff dyfarnu'n stopio cael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru, does dim gofyn iddyn nhw ddarparu data i ni mwyach. Mae hyn yn golygu os bydd corff dyfarnu'n stopio cael ei gydnabod gennym yn ystod neu'n syth ar ôl chwarter, ni fyddan nhw'n darparu data ar gyfer y chwarter hwnnw. Bydd unrhyw dystysgrifau a gafodd eu dyfarnu yng Nghymru yn ystod y chwarter hwnnw tra oedd y corff

dyfarnu'n dal i gael ei gydnabod ar goll o'r data yn y datganiad hwn. Mae'r data hanesyddol a gafodd ei ddarparu gan Ofqual yn cynnwys data ar gyfer rhai cyrff dyfarnu a oedd, ar adeg casglu'r data, yn cael eu cydnabod gan Ofqual ond nid Cymwysterau Cymru. Lle nad yw corff dyfarnu erioed wedi cael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru, mae'r holl ddata ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw wedi'i ddileu. Lle cafodd corff dyfarnu ei gydnabod gennym ni, ond ei fod wedi ildio cydnabyddiaeth yn ddiweddarach hanner ffordd drwy chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw wedi'i gynnwys, ac mae'r corff dyfarnu wedi'i dynnu o'r data o'r chwarter dilynol ymlaen. Mewn nifer fach o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac yna wedi cael ei gydnabod eto yn ddiweddarach. Yn yr achosion hyn, dim ond pan na chafodd y corff dyfarnu ei gydnabod am gyfnod cyfan y chwarter y mae data wedi'i hepgor. Felly, efallai na fydd cyfansymiau hanesyddol yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd gan Ofqual.

Ar 04 Mai 2018 tynnodd Ofqual gydnabyddiaeth yn ôl oddi wrth The Awarding Body for Vocational Achievement (AVA) Ltd (yn masnachu fel BAA). Gweler [y dudalen hon](#) am ragor o fanylion. Fel rhan o'r ymchwiliad cyn y penderfyniad canfuwyd bod AVA wedi bod yn darparu data tystysgrifau anghywir i Ofqual. Nid yw'n ymarferol cael data wedi'i gywiro gan AVA, ond mae'n hysbys bod graddfa'r cywiriadau'n fach.

Amdanom ni a'n hystadegau

[Cymwysterau Cymru](#) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru.

Mae [Gorchymyn Ystadegau Swyddogol \(Cymru\) 2017](#) yn ein henwi fel un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas [Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007](#). Mae'r datganiad yma'n cael ei gyfhoeddi fel ystadegau swyddogol, gan gydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Sicrhau ansawdd

Mae manylion o ran sut rydyn ni'n sicrhau ansawdd y data yma'n cael eu cynnwys yn ein [Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol](#). Mae data hanesyddol wedi bod yn destun [gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual](#).

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

Diwygiadau

Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, ni fydd y data yma fel arfer yn cael eu diwygio, ond efallai y caiff datganiadau dilynol eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall. Ceir mwy o wybodaeth yn ein [Polisi Diwygiadau a Chywiriadau](#).

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Yn unol â [pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru](#), mae ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau i gyd yn seiliedig ar ffigurau sydd heb eu talgrynnu. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddan nhw'n cyfateb i'r cyfanswm.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae geirfa o dermau ar gael [ar ein gwefan](#) i'ch helpu i ddehongli'r datganiad yma. Mae modd i chi gael gwybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

Mae [cronfa ddata QiW](#) yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Ofqual ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer Lloegr.](#)

[Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu \(CCEA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban \(SQA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Eurostat.](#)

Defnyddwyr yr ystadegau hyn ac adborth

Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r system gymwysterau. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i Ofqual a rheoleiddwyr cymwysterau eraill, cyrff dyfarnu, canolfannau (ysgolion a cholegau) a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth ar yr ystadegau hyn ac mae modd eu darparu drwy e-bost at ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.